Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Aelod allanol o Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Coleg

## Manyleb rôl a manyleb person

Ionawr 2025

# Manyleb Rôl

| | |
|---|---|
| **Teitl y Rôl:** | Aelod allanol o Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y Coleg |
| **Cydnabyddiaeth / Tâl:** | £200 y dydd yn unol â ffioedd arferol y Coleg + treuliau cymwys |
| **Statws Cyflogaeth:** | Rôl wirfoddol |
| **Tymor gwasanaeth:** | 4 blynedd (gyda'r posibilrwydd o ail dymor) |
| **Lleoliad:** | amherthnasol |
| **Atebol i:** | amherthnasol |

# Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

## Bwrdd y Coleg a'i bwyllgorau

Mae Bwrdd y Coleg yn darparu arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad trwy bennu cynlluniau, cytuno ar sut a ble y caiff adnoddau eu defnyddio, a thrwy adolygu cynnydd gwaith y Coleg, gan graffu ar sut y mae'n cael ei gyflawni. Mae'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'r rheolwyr wrth gyflawni ei rôl.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i is-bwyllgorau sefydlog, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Risg;
- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol;
- Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant;
- Bwrdd Academaidd;
- Bwrdd Strategol Ôl-16.

Mae gan y Coleg dîm o staff canolog, wedi eu lleoli unai yn ei brif swyddfa yng Nghaerfyrddin neu ei swyddfeydd yng Nghaerdydd, Aberystwyth neu Gaernarfon.

Yn gyfansoddiadol, y mae'r Coleg yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac mae hefyd wedi cofrestru fel elusen. O ganlyniad mae'r Coleg yn gorfod cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau.

Ceir mwy o fanylion am y Coleg ar ein gwefan.

# Y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Mae’r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio gweithgareddau’r Coleg mewn perthynas â chyllid a chynllunio ariannol, staffio ac adnoddau dynol, iechyd a diogelwch, marchnata a chyfathrebu, strategaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth y Coleg, a gwasanaethau gwybodaeth a systemau.

Mae’r Pwyllgor yn cynnwys hyd at dri o aelodau Bwrdd y Coleg a hyd at dri aelod allanol, a chaiff ei gadeirio fel rheol gan un o aelodau’r Bwrdd.

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yw **Pedr ap Llwyd**.

Ceir copi o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor hwn yn Atodiad A.

## Prif Gyfrifoldebau Aelodau Allanol

Mae aelodau'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn darparu goruchwyliaeth lefel uchel i sicrhau bod trefniadau rheoli pwrpasol a digonol yn eu lle i gefnogi tîm rheolwyr y Coleg ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae’r gwaith hwn yn wahanol i ac yn ychwanegol at reolaeth weithredol y Coleg, sy’n gyfrifoldeb i’r tîm rheoli.

Gofynnir i aelodau allanol ddefnyddio eu harbenigedd a'u profiad i gyfrannu at y gwaith hwn. Disgwylir i aelodau holi mewn ffordd ddeallus, i ystyried yn wrthrychol, i drafod yn ddiduedd, i herio mewn ffordd adeiladol, ac i ddarparu barn gytbwys, ar ôl gwrando’n sensitif ar farn eraill.

Fel rhan o'u gwaith ar y Pwyllgor, disgwylir i’r aelodau ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r Coleg (ei amcanion, heriau, strwythur a diwylliant), yn ogystal â’r fframweithiau rheolaethol y gweithia oddi fewn iddynt.

## Gofynion profiad ac arbenigeddau y Rôl

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu diwallu ei gyfrifoldebau'n gywir ac yn effeithiol, y mae disgwyl i'r aelodau ddod ag amrywiaeth o sgiliau a phrofiad i'r Pwyllgor, megis:

- profiad o reolaeth arian a chyllid;
- profiad o adnoddau dynol a materion yn ymwneud â chyflogaeth staff, cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- marchnata a chyfathrebu;
- gwasanaethau gwybodaeth, technoleg a systemau;
- addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau a / neu ddysgu seiliedig ar waith;
- profiad ymarferol o reoleiddio a gweithredu egwyddorion Nolan.

Yn ogystal ag ychwanegu gwerth eu sgiliau a'u profiad penodol, mae gofyn i holl aelodau'r Pwyllgor gydweithio'n effeithiol fel tîm. Nodir cyfres o nodweddion sy'n hanfodol i aelodau holl bwyllgorau Bwrdd y Coleg yn y Manyleb Person ar ddiwedd y ddogfen hon, yn ogystal â'r rheiny sy'n angenrheidiol ac yn ddymunol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor hwn.

**Mae’r Pwyllgor yn edrych i benodi aelod allanol newydd ar hyn o bryd ac adnabuwyd angen penodol am aelod sydd yn meddu ar:**

- arbenigedd ariannol a chyllid, o safbwynt:
  - cynllunio cyllidebol,
  - derbyn adroddiadau incwm a gwariant,
  - monitro buddsoddiadau, ayyb.

Mae’r Coleg hefyd yn awyddus i sicrhau bod gennym Fwrdd a phwyllgorau sy’n adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan a byddwn yn croesawu ceisiadau gan unigolion o ystod eang o oedrannau, ardaloedd daearyddol, cefndiroedd a chymunedau amrywiol. Byddwn yn croesawu yn enwedig ddiddordeb gan ymgeiswyr du ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ogystal â phobl sydd ag unrhyw nodweddion gwarchodedig eraill.

# Manylion eraill

### Tymor gwasanaeth

Penodir aelodau allanol am gyfnod o bedair blynedd, ac mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn caniatáu i aelodau wasanaethu am un tymor pellach (yn unol â gweithdrefn ail-benodi aelodau).

Bydd y penodiadau newydd yn dechrau yng ngwanwyn 2025.

## Ymrwymiad o ran amser

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod teirgwaith y flwyddyn, fel arfer am fore neu brynhawn. At ei gilydd, disgwylir y bydd angen i aelodau allanol neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i oddeutu tridiau mewn blwyddyn i'r Coleg.

Cynhelir cyfarfodydd fel rheol yn rhithiol ond mae'n bosib y bydd y Pwyllgor yn cwrdd o bryd i'w gilydd mewn person.

**Dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd 2024/25 a 2025/26:**

- 11 Mehefin 2025
- 24 Medi 2025
- 4 Mawrth 2026
- 10 Mehefin 2026

## Cydnabyddiaeth a Threuliau

Mae hon yn rôl wirfoddol. Fodd bynnag, telir ffi dyddiol i aelodau allanol pwyllgorau yn unol â graddfeydd arferol y Coleg. Telir hefyd treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth wneud gwaith ar ran y Coleg o fewn terfynau a osodir gan reoliadau ariannol y Coleg.

## Datgan buddiannau

Dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes a all ddylanwadu ar eu barn wrth gyflawni swyddogaethau aelod allanol o bwyllgorau Bwrdd y Coleg.

### Y Gymraeg

Cymraeg yw iaith weithredol y Coleg. Cynhelir holl gyfarfodydd y Coleg yn y Gymraeg, gan ddarparu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd, yn ogystal â phapurau perthnasol yn y Saesneg pan fydd angen.

## Gwneud cais

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb ymgeisio i anfon **llythyr cais a CV** at Ysgrifennydd y Coleg (e-bost ysgrifennydd@colegcymraeg.ac.uk).

Bydd Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant y Coleg yn ystyried y ceisiadau ac yn eu hasesu yn erbyn y nodweddion sydd wedi'u nodi yn y manyleb person ar ddiwedd y ddogfen hon. Anogir ymgeiswyr i gynnwys enghreifftiau yn eu llythyron cais o'r profiad a'r sgiliau sydd ganddynt sy'n eu gwneud yn gymwys ar gyfer y rôl.

Bydd y Pwyllgor yn cadw'r hawl i gyfweld ymgeiswyr cyn penodi. Cynhelir cyfweliadau ar brynhawn Mercher, **19 Mawrth 2025** dros MS Teams, os bydd angen.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch yn y man cyntaf drwy'r e-bost uchod er mwyn trefnu amser ar gyfer sgwrs ffôn.

Y dyddiad cau yw 12.00 ar ddydd **Mercher, 5 Mawrth 2025**.

## Manyleb Person

Bydd gan aelodau allanol o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol y nodweddion canlynol:

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad** | **Nodweddion hanfodol i aelodau holl Bwyllgorau'r Coleg** |
| | Y gallu i ddadansoddi a phwyso a mesur gwybodaeth gymhleth ac i ddod i benderfyniad |
| | Meddwl annibynnol sydd yn fodlon herio mewn ffordd adeiladol |
| | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da, ac yn gallu cydweithio'n effeithiol â phobl ar bob lefel |
| | Gwybodaeth am drefniadau llywodraethiant corfforaethol |
| | Dealltwriaeth o ac ymrwymiad i amcanion y Coleg a'i genhadaeth ehangach i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, a diddordeb byw mewn materion cydraddoldeb ac amrywiaeth |
| | **Nodweddion angenrheidiol ar gyfer dau neu ragor o aelodau'r Pwyllgor hwn** |
| | Gwybodaeth arbenigol neu brofiad o reolaeth ariannol a chyllid, o safbwynt cynllunio cyllidebol, derbyn adroddiadau incwm a gwariant, monitro buddsoddiadau, ayyb |
| | Profiad ymarferol o reoleiddio a gweithredu egwyddorion Nolan |
| | Gwybodaeth a dealltwriaeth am faterion addysgol, gan gynnwys addysg uwch a/neu addysg bellach, ac yn arbennig addysg cyfrwng Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | **Nodweddion dymunol eraill ar gyfer aelodau'r Pwyllgor hwn** |
| | Gwybodaeth am neu brofiad o bolisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol, iechyd a diogelwch, a materion sy'n ymwneud â chyflogaeth staff |
| | Gwybodaeth am neu brofiad o farchnata a chyfathrebu |
| | Gwybodaeth am neu brofiad o wasanaethau gwybodaeth, technoleg gwybodaeth a systemau |
| **Gofynion eraill** | Yr amser i neilltuo hyd at dri diwrnod o waith i'r Coleg bob blwyddyn |

# Atodiad A

## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

### 1. Cyfansoddiad

1.1 Sefydlwyd Pwyllgor y Coleg a adwaenir fel y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol gyda'r Cylch Gorchwyl a'r rheolau sefydlog canlynol drwy benderfyniad y Coleg dyddiedig 22 Tachwedd 2017.

### 2. Cylch Gorchwyl

2.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn gwybodaeth, monitro cynnydd, cyflwyno barn, sefydlu ac adolygu polisïau ynghyd ag adrodd a gwneud argymhellion perthnasol i'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud â chyllid, cynllunio ariannol, polisïau adnoddau dynol a materion eraill yn ymwneud â chyflogaeth staff, marchnata a chyfathrebu, a gwasanaethau gwybodaeth a systemau, yn cynnwys adolygu a derbyn gwybodaeth am bolisïau perthnasol.

### 3. Cyllid

3.1 Derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynllunio cyllidebol tymor canolig a hir gan gynnwys ffynonellau incwm, adolygu'r Rheoliadau Ariannol, adolygu Polisi Buddsoddiadau'r Coleg, monitro perfformiad buddsoddiadau'r Coleg, arfarnu grantiau, a chynnig cyngor ar unrhyw faterion eraill a gyfeirir at y Pwyllgor gan Fwrdd y Coleg neu'r swyddogion am arweiniad.

## 4. Adnoddau Dynol

4.1 Adolygu a derbyn gwybodaeth rheolaidd am bolisïau a materion eraill yn ymwneud â chyflogaeth staff. Derbyn adroddiad adnoddau dynol rheolaidd.

4.2 Bod yn gyfrifol am drefniadau ar gyfer adolygu cyflog y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol.

## 5. Iechyd a Diogelwch

5.1 Adolygu a derbyn gwybodaeth am y polisi Iechyd a Diogelwch. Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a rhoi cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes iechyd a diogelwch.

## 6. Marchnata a Chyfathrebu

6.1 Adolygu strategaethau yn perthyn i farchnata a chyfathrebu yn cynnwys y Strategaeth Farchnata. Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a rhoi cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes marchnata a chyfathrebu.

## 7. Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau

7.1 Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a chynnig cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes gwybodaeth a systemau. Ystyried ac adolygu strategaethau perthnasol i'r meysydd

hyn gan gynnwys Polisi Diogelu Data a gofynion deddfwriaethol eraill yn y maes.

## 8 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth

8.1 Adolygu Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth y Coleg a sicrhau bod y strategaeth yn adlewyrchu arfer gorau. Derbyn adroddiadau rheolaidd fel y bo'n briodol, a chynnig cyngor ar faterion perthnasol i weithgareddau'r Coleg ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a gwrth-hiliaeth.

## 9. Aelodaeth

9.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- Cadeirydd, a fydd fel arfer yn aelod o Fwrdd y Coleg;
- Cadeirydd Bwrdd y Coleg (*ex officio*);
- Cynrychiolaeth o hyd at dri o aelodau eraill a benodwyd o blith aelodau Bwrdd y Coleg;
- Aelodau annibynnol o hyd at dri na fyddant yn aelodau o'r Bwrdd. Byddant yn cael eu penodi drwy broses a oruchwylir gan y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant.

9.2 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor yw tri aelod, gan gynnwys y Cadeirydd neu ei enwebai.

9.3 Bydd y Prif Weithredwr a swyddogion eraill yn mynychu yn ôl y gofyn.

## 10. Awdurdod

10.1 Awdurdodir y Pwyllgor gan Fwrdd y Coleg i ymwneud â'r holl faterion sydd wedi eu dirprwyo iddo gan Fwrdd y Coleg.

## 11. Nifer Cyfarfodydd

11.1 Cynhelir o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn.

## 12. Ysgrifenyddiaeth

11.1 Darperir ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor gan aelod o staff cyflogedig y Coleg.

## 13. Adolygu Cylch Gorchwyl

13.1 Adolygir cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn gan y Pwyllgor a gan Fwrdd y Coleg yn flynyddol.